

Portffolio Modiwl 2

Dydw i ddim wedi defnyddio AI.

Ar gyfer y modiwl yma, rydw i wedi gwneud:

- Cynllun Datblygiad Parhaus (474 gair)
- Papur briffio (923 gair)
- Traethawd ysgrifenedig(1461 gair)

Cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Ar hyn o’r bryd rydw i’n gynorthwyydd dosbarth ac wedi bod ers 2022. Erbyn 2027, hoffwn ennill cymhwyster Lefel 6, gwella sgiliau academiaidd a graddio cwrs TAR. Byddaf yn adolygu ar y cynllun yma’n fisol, ond yn ffocysu ar un o’r gwrthrychol, sydd mynd i helpu fi cyrraedd y ddau darged gwrthrychol arall. Byddaf yn dechrau adolygu ym mis Tachwedd 2024.

Gwrthrychol (beth?)	Camau Gweithredu (sut?)	Adnoddau / Cymorth	Dyddiadau targed ac adolygiad	Meini prawf llwyddiant
Ennill cymhwyster lefel 6.	Byddaf yn mynychu pob darlith a gwers. Bydd pob aseiniad wedi cwblhau.	Bydd angen cyfrifiadur, papur a phen er mwyn cymryd nodiadau ac ymchwilio. Bydd angen mynediad i lyfrgell er mwyn ymchwilio a chael cyfeiriadau.	Gorffena ff af 2026. Adolygiad Ionawr 2025. Adolygiad Gorffena ff af 2025. Adolygiad Gorffena ff af 2026. Byddaf yn cymharu fy nealltwriaeth trwy ateb cyfres o gwestiynau yn seiliedig ar bob pwnc a modiwl.	Byddaf wedi graddio. Bydd pob aseiniad wedi cwblhau. Byddaf yn gweld newid yn fy ngwaith ymarferol. Bydd fy nealltwriaeth wedi ehangu.
Gwella sgiliau academiaidd.	Byddaf yn gwneud mwy o waith ymchwilio yn fy aseiniadau. Byddaf yn gwneud mwy o ymdrech i fynd i’r llyfrgell. Os dydw i ddim yn siŵr, byddaf yn gofyn am gymorth.	Bydd angen mynediad at y rhyng gr wyd er mwyn mynychu gwaith ymchwil. Bydd angen dod mewn i arfer da o fynd i’r llyfrgell yn aml a darllen mwy. Bydd angen cymorth yn y tŷ er mwyn ryddhau	Medi 2025. Adolygiad ar y cyntaf o bob mis. Byddaf yn adolygu trwy gadw cofnod o nifer o lyfrau rydw i’n darllen ar gyfer pob modiwl.	Bydd arferion da newydd yn dod. Ni fyddaf dan gymaint o straen. Byddaf yn darllen mwy. Byddaf yn ffeindio gwaith ymchwil yn haws.

	Bydd angen i fi sicrhau bod pob gofynion aseiniad yn cael ei chwrdd.	amser i fi darllen llyfrau.		
Graddio cwrs TAR.	Er mwyn dechrau cwrs TAR, Bydd angen graddio ac ennill cymhwyster lefel 6. Byddaf yn defnyddio popeth rydw i wedi dysgu, a'i rhoi mewn i ymarfer. Bydd angen cofrestru ar y cwrs ar ôl graddio gyda chymhwyster lefel 6. Bydd angen i fi mynychu pob darlith a gwers. Bydd angen i bob aseiniad cael eu cwblhau a chyflawni ar amser. Bydd angen gwneud gwaith theori ac ymarferol o safon uwch.	Bydd angen mentor lleoliad a mentor prifysgol. Bydd angen lleoliadau. Bydd angen sgiliau academaidd llwyddiannus ac arferion da wrth ysgrifennu ac ymchwilio. Bydd angen sicrhau modd o deithio i leoliadau gwahanol. Bydd angen cymorth ariannol er mwyn talu popeth sydd gennyf.	Gorffennaf 2027. Adolygiad pob mis yn dechrau o Fedi 2026. Byddaf yn adolygu trwy sicrhau bod pob cam gweithredu yn cael ei cwblhau.	Byddaf yn cael fy nerbyn ar y cwrs. Byddai wedi cyflawni pob aseiniad i safon uwch. Bydd pob aseiniad yn cael adborth da. Bydd lleoliadau yn rhoi adborth da. Byddaf wedi graddio.

Papur briffio

Beth yw adfyrio ac arfer adfyrio?

Adlewyrchu yw broses o feddwl. Mae adfyrio ac arfer adfyrio yn werthoedd craidd i weithwyr proffesiynol ac mae iddynt rôl allweddol mewn hyfforddiant (Brock, 2015). Adlewyrchu yw'r broses o ddysgu. Mae'n ffordd o ddysgu o brofiad a datblygu ymarfer eich hun wrth edrych ar bethau sydd yn gweithio'n dda, a'r pethau sydd ddim yn gweithio mor dda, a darganfod ffordd o wella ymarfer. Arfer adfyrfiol yw pryd mae rhywun yn edrych nôl ar eu hymarfer gan gynnwys cynllunio, gweithgareddau a'r amgylchedd dysgu ac ystyried y pethau sydd wedi gweithio'n dda, a'r pethau sydd angen gwella (Birth to 5 matters, 2021).

Pam mae adfyrio ac arfer adfyrio'n bwysig yn y flynyddoedd cynnar?

Looking back through a reflective lens informs new ways of thinking of and developing professional practice to put policy into practice (Dahlberg et al., 2007). Mae'r arfer o adlewyrchu yn bwysig i'r flynyddoedd cynnar er mwyn hyrwyddo arferion da, ac ymarfer sydd yn gwella'n barhaus. Trwy adlewyrchu ar ymarfer, bydd ymarferwyr yn ehangu dealltwriaeth o'u harfer ac yn hybu gweithwyr i fod yn fwy rhagweithiol a gwella ansawdd gofal a gynigir i blant. (Birth to 5 matters, 2021) Mae adlewyrchu yn broses o feddwl. Trwy adlewyrchu'n gyson ac yn aml ar ymarfer neu ddiwylliant, ni fyddwn yn ymwybodol o newidiadau diwylliannol, neu newidiadau ymarferol, sy'n gallu effeithio ymarfer.

Theori o fyfyrto:

Theori yw rhywbeth sydd yn gallu ymateb i feirniad. Mae sawl damcaniaeth theori yn bodoli. Y damcaniaethwyr mwyaf enwog, sef Dewey a Schön.

Roedd John Dewey yn ddamcaniaethwr o'r UDA. Bu farw yn 1952. Dywed Dewey bod myfyrto fel proses wedi ei rhesymoli. Mae e hefyd yn dweud bod ystyriaeth weithredol a ddyfalbarhaus o unrhyw gred neu unrhyw fath o ddealltwriaeth yng ngoleuni'r seiliau sy'n ei chefnogi, ac ymhellach yn crynhoi'r casgliadau pellach maent yn arwain at (Dewey, 1933). Gwnaeth Dewey darparu'r syniad gwreiddiol o'r theori adfyrio mewn ymarfer. Fe wnaeth e ddarganfod dwy fath o weithred, sef 'arfer adfyrio' a 'myfyrto'. Arfer adfyrfiol yw rhywbeth sydd yn cael eu gwneud heb feddwl yn gyson, er enghraifft golchi dannedd pob bore a nos. Yn wahanol i hyn, myfyrto yw broses o feddwl am weithgaredd, a 'r camau gweithredu a meddwl am ganlyniadau'r gweithgaredd.

Roedd Donald Schön yn ddamcaniaethwr hefyd o'r UDA. Bu farw yn 1997. Fe wnaeth Schön adeiladu ar theori Dewey trwy gysylltu myfyrto'n fwy cadarn i ddatblygiad proffesiynol ac ymarfer proffesiynol. Hawliodd Schön, trwy fyfyrto, bydd ymarferydd yn ehangu dealltwriaeth gwella'u hymarfer a dod yn fwy proffesiynol yn yr hyn maent yn gwneud (University of Southampton).

Credodd Schön bod ymarferwyr gallu myfyrto mewn dwy ffordd wahanol, myfyrto mewn gwaith a myfyrto ar waith. Caiff y ddwy theori yma ei adeiladu ar theori gychwynnol Dewey. Myfyrto mewn gwaith yw pryd mae rhywun yn myfyrto ar rywbeth, wrth i'r peth digwydd. I wneud hwn, mae angen ystyried beth sydd yn digwydd yn y sefyllfa, dewis sut i ymateb, ac ymateb yn syth. Mae'r arfer myfyrto yma'n digwydd yn syth. Yn wahanol i hyn, mae myfyrto ar waith yn digwydd ar ôl i rywbeth digwydd. Rydych yn edrych nôl ar y digwyddiad ac yn ail ystyried y sefyllfa, meddwl am yr hyn sy'n gorfod newid am y dyfodol ac yna rhoi'r casgliad mewn i ymarfer.

Theori adfyrio Gibbs

Mae cylch myfyrto Gibbs yn edrych ar chwech elfen gwahanol o fyfyrto, sef disgrifiad, teimladau / emosiynau, gwerthuso, dadansoddi, casgliad a chynllun gweithredu.



Theori adfyrio Kolb

Mae cylch myfyrto Kolb yn edrych ar pedair elfen gwahanol, sef profiad diraethol, arsylwi myfyrto, cysyniadaeth haniaethol ac arbrofi gweithredol.



Cymhariaeth dau fodel

Mae'r ddau fodel myfyrto yma'n debyg a gwahanol iawn mewn sawl ffordd. Mae cylch myfyrto Gibbs yn edrych ar chwe elfen wahanol tra bod cylch myfyrto Kolb dim ond yn edrych ar bedwar elfen wahanol. Mae'r ddau gylch yn dechrau gyda digwyddiad. Mae'r ddau gylch yma'n dechrau gwahaniaethu ar ôl y cam cyntaf. Wrth edrych ar bob cam yn y ddwy cylch, mae'n dod yn amlwg bod cylch myfyrto Gibbs yn fwy personol wrth gymharu gyda chylch myfyrto Kolb oherwydd mae cylch Gibbs yn edrych ar deimladau yn ystod digwyddiadau, sydd yn arwain i rywun feddwl am yr effeithiau emosiynol mae digwyddiad yn cael ar rywun, lle mae cylch myfyrto Kolb dim ond yn edrych ar y digwyddiad neu brofiad. Mantais cylch Gibbs yw ei fod yn ceisio darparu dull ymarferol o ddysgu o brofiad lle mae model Kolb yn ymwneud mwy ag egluro'r cysyniad bod pobl yn dysgu trwy brofiad (Hughes 2024). Gwelwn debygrwydd mawr trwy edrych ar y cynllun cyfan. Mae'r ddau fodel yn ffyrdd o wella datblygiad ymarferydd a sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus. Mantais arall i fodel fyfyrto Gibbs yw ei fod yn gallu cael ei wneud wrth i'r profiad digwydd, yn debyg iawn i theori Schön. Creda Schön bod ymarferwyr gallu myfyrto ar waith ac mewn gwaith. Wrth ddarllen pob cam yng nghylch Gibbs, gwelwn fod hi'n bosib gwneud hwn yn ystod digwyddiad, lle ar y llaw arall, dydyn ni ddim yn gallu gwneud yr un peth gyda chylch Kolb. Anfantais cylch myfyrto Kolb yw ei fod yn seiliedig ar fyfyrto ar waith yn hytrach na myfyrto ar waith a hefyd myfyrto mewn gwaith. Mae cylch myfyrto Gibbs yn galluogi rhywun i wella ymarfer wrth iddynt ymarfer, yn hytrach na chymryd yr amser i feddwl am rywbeth ar ôl i rywbeth digwydd.

Casgliad

Arfer adfyrio yw rhywbeth rydych yn gwneud heb feddwl, ac mae hi'n bwysig cael arferion da o fewn y flynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth hanfodol er mwyn darparu'r gofal gorau posib (Gordon R, 2023). Mae cylch myfyrto Gibbs a Kolb yn edrych yn debyg, ond wrth ddarllen ymhellach ac yn ddyfnach, maen nhw'n wahanol iawn.

2405681
Ecey4009/C

Birth to 5 matters, (2021), *Learning and Development*, Ar gael yn <https://birthto5matters.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/PDF-20-Professional-Reflective-Practice-1-1.pdf> (Wedi cychwyn 30ain o Hydref 2024)

Birth to 5 matters, (2021), *Professional reflective practice*. Ar gael yn: <https://birthto5matters.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/PDF-20-Professional-Reflective-Practice-1-1.pdf> (Wedi cychwyn 30ain o Hydref 2024)

Brock, A. (2015) *The early years reflective practice handbook*. Llundain: Routledge.

Dahlberg et al., (2007) *The reflective Early Years Practitioner*. Llundain: SAGE.

Dewey, (1933) *How We Think*. Tudalen 118. Unol Daleithiau America: [D.C Heath and company](https://www.dchealth.com/)

University of Southampton. Ar gael yn: <http://edshare.soton.ac.uk/11124/1/index.htm> (Wedi cychwyn 1af o Dachwedd 2024)



Llun 1: McLeod S. (2024) Gibbs Reflective Cycle
[simplypsychology.org](https://www.simplypsychology.org/gibbs-reflective-cycle/)



Llun 2: Brown N. Reflective model according to Kolb.

[Nicole-brown.co.uk](https://www.nicole-brown.co.uk/)

Hughes M (2024) 'Gibbs Reflective Cycle' Ar gael yn: https://mindtools.com

Gordon R (2023) 'Ten Examples of Good Practice in the Early Years' Wandsworth Early Years. (Cyhoeddi ar-lein 30ain o Awst 2023) Ar gael yn: <https://earlyyears.wandsworth.gov.uk/Article/145696> (Wedi cychwyn: 1af o Dachwedd 2024)

Elfen 3- Y traethawd ysgrifenedig

Traethawd Ysgrifenedig

Ymarfer proffesiynol yw'r ymddygiad o unigolyn pryd bynnag maent yn gweithio (GIS 2023). Mae proffesiynoldeb, yn ei hanfod, yn agwedd lle rydych chi'n cymryd rôl

benodol (Wilkinson, 2012). Mae Hayes (2016) yn trafod proffesiynoldeb yn y blynyddoedd cynnar mewn perthynas â chydbwysio nifer o gyfrifoldebau. Mae ef hefyd yn dweud bod proffesiynoldeb angen i ymarferwyr fod yn ddibynadwy, felly mae parch a chyfrinachedd yr un mor bwysig wrth sefydlu perthynas llwyddiannus rhwng mentor a mentori.

Mae unrhyw un sy'n gweithio mewn maes gyrfa y mae angen gradd prifysgol ar ei gyfer, neu hyfforddiant ychwanegol, yn cael ei ystyried fel gweithiwr proffesiynol. Mae gan weithwyr proffesiynol llawer o wybodaeth a dealltwriaeth ar bwnc yn seiliedig a'r yrfa. Er enghraifft, mae gan athrawon cymhwyster i alluogi nhw i ddysgu, ac maen nhw'n arbenigo mewn addysg. Gall proffesiynoldeb adlewyrchu syniadau dosbarth canol gweithwyr proffesiynol fel 'unigolyn nodedig a dysgedig sydd ag arbenigedd sylweddol' (Chalke 2013). Mae Perez yn adnabod bod y syniad o broffesiynoldeb yn tanategu gan y gwerthoedd sydd yn arwain y sgiliau, gwybodaeth a'r safonau moesol sydd yn hanfodol i rôl gweithiwr.

Egwyddorion yw rheolau neu gredoau sy'n rheoli ymddygiad unigolyn. Mae gwneud ymrwymiad proffesiynol i addysg ac addysgwyr yn elfen bwysig iawn i'r egwyddorion a'r flynyddoedd cynnar oherwydd mae hyn yn hybu hunanhyder a hefyd yn eich galluogi i wella'r gallu i ofalu am blant bach. Mae parch, urddas ac ymddiriedolaeth hefyd yn egwyddorion pwysig yn y blynyddoedd cynnar oherwydd mae agweddau positif yn arwain at adeiladu a meithrin perthnasoedd da, sydd fel canlyniad, yn arwain at ymarfer proffesiynol ac arferion da.

Hefyd, mae gan weithwyr proffesiynol cyfathrebiad effeithiol a da gyda rhieni a gofalwyr, aelodau o staff arall, a hefyd gyda gweithwyr amlasiantaethau (Powell, 2010). Mae cyfathrebiad effeithiol gyda rhieni a gofalwyr yn ogystal â phlant yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bod dim camddeall yn digwydd. Os oes digwyddiad yn yr ysgol sydd gorfod cael ei thrafod gyda rhieni ar ddiwedd dydd, mae angen cyfathrebu mewn ffordd ymlacied, ac os oes rhiant yn grac, mae'n bwysig lleddfu'r sefyllfa yn lle mynd yn grac gyda nhw.

Mae Brock 2012 yn dweud taw moesau yw un o'r prif egwyddorion yn y blynyddoedd cynnar. Moesau yw'r cysyniadau haniaethol sy'n aml yn gymhleth. Er mwyn cadw at y safonau cenedlaethol a chadw proffesiynoldeb, mae moesau'n bwysig iawn.

Mae cyfathrebiad da yn ganolog i weithio gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Cyfathrebiad da yw un o'r prif egwyddorion ac mae hi'n broses actif sydd yn digwydd trwy'r amser. Mae cyfathrebiad yn cynnwys gwrandao, holi, deall ac adrodd yn ôl i'r hyn sydd yn cael eu cyfathrebu gan blant, pobl ifanc a'r gofalwyr (Dunhill, 2009). Nid yw pob plentyn yn gallu cyfathrebu ar lafar, felly maen nhw'n cyfathrebu mewn ffurf wahanol gan gynnwys trwy synau neu arwyddo. Dangosodd dau brosiect ymchwil gan Straj-Blatchford ei bod yn hanfodol i oedolion rhyngweithio gyda phlant er mwyn sicrhau twf a datblygiad. Yn ôl Vygotsky, gall datblygiad gwybyddol a galluoedd dysgu gael ei gyfyngu a'i arwain trwy ei rhyngweithiadau

cymdeithasol. Mae cyfathrebiad effeithiol yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bod anghenion plant yn cael ei chwrdd er mwyn sicrhau twf a datblygiad da.

Mae rhan bwysig o weithio fel ymarferydd proffesiynol yn gwneud a meithrin perthnasoedd da gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, gweithwyr amlasiantaethau a chydweithwyr. Mae gan sefydlai plant polisïau er mwyn cadw ffiniau proffesiynol, a sicrhau diogelwch y plant a'r staff. Mae perthnasoedd da gyda phlant yn helpu adnabod anghenion ac mewn tro, bydd perthnasau da gyda gweithwyr amlasiantaethau yn helpu cael y cymorth iawn sydd angen ar y plant sydd ag anghenion.

Er mwyn darparu'r gofal gorau i blant, mae dealltwriaeth ddofn o bynciau allweddol yn hanfodol. Enghraifft o bwnc sy'n hanfodol pan weithio gyda phlant, yw'r Confensiwn Cenhedlaeth Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP). Y CCUHP yw datganiad sy'n esbonio fod gan blant hawliau dynol sylfaenol. Dywed erthygl 37 fod gan yr hawl i bob plentyn cael ei thrin yn deg. Mae 54 erthygl yn seiliedig ar hawliau plant. Mae erthygl 1-42 yn trafod hawliau plant, ac mae 43-54 yn seiliedig ar sut mae'r confensiwn yn gweithio.

Trwy gael dealltwriaeth ddofn, bydd yn helpu galluogi gweithwyr proffesiynol i adnabod pryd mae diogelwch yn broblem. Pan fydd rhywbeth yn cael ei ddeall yn ystyrlon, mae'n cael ei gadw'n llawer hirach, gellir adeiladu arno i feithrin dealltwriaeth bellach, mae fel arfer yn amlbwrpas iawn yn y sefyllfaoedd a'r ffyrdd y gellir ei ddefnyddio, ac yn hwyluso creadigrwydd (Reigeluth, 1999). Mae yna sawl deddfwriaeth yn ei le i gadw plant yn ddiogel rhag niwed.

Un o'r deddfwriaethau mwyaf pwysig i weithwyr proffesiynol yw Diogelu plant rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Caiff y ddeddfwriaeth yma ei chyhoeddi yn 2019. Pwrpas y ddeddfwriaeth yma yw sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae gan bawb sydd yn gweithio gyda phlant dyletswydd i gadw plant yn ddiogel. Er mwyn sicrhau diogelwch plant yn lleoliadau gwahanol, mae systemau diogelwch gwahanol ar gael. Mae rhai sefydlai yn defnyddio 'My Concern', sef system sydd yn darparu man diogel ar gyfer cofnodi a rheoli pob math o bryderon diogelu. Mae'r pethau yma wedyn yn mynd at reolwr y lleoliad a nhw sydd yn gwneud penderfyniad i gysylltu ag asiantaethau allanol. Gall gweithwyr amlasiantaethau cynnwys gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu, ymwelydd iechyd neu'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, sef yr NSPCC.

Mae 21% o Gymru yn byw mewn tldi cymharol (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae'r amlasiantaethau yma'n bwysig iawn yn y maes diogelu. Heb rain bydd diogelwch plant yn broblem. Mae gwaith amlasiantaethau yn ddull partneriaeth sy'n dod â chanlyniadau trawiadol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc. Trwy weithio ar y cyd, mae ymarferwyr proffesiynol yn darparu ymateb di-dor i'r plant sydd ag anghenion ac yn sicrhau gwelliant yn eu bywydau (Training Express, 2023). Mae gweithio mewn partneriaeth gallu gwella datblygiad gweithiwr proffesiynol wrth iddynt ddysgu sut

mae'r asiantaethau yma'n gweithio. Trwy rannu gwybodaeth gyda gweithwyr amlasiantaethau, gall ymarferwyr proffesiynol gwella ansawdd gwasanaethau, a chefnogi plant a hefyd tyfu yn eu meysydd.

Arsylwi yw edrych a gwylio plentyn wrth iddynt chwarae. Mae arsylwadau yn helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod unrhyw anghenion datblygiad. Caiff arsylwadau ei wneud pan fydd plentyn yn chwarae. Yn ôl Froebel, chwarae yw'r prif ddull o addysg yn y blynyddoedd cynnar. Dylai plant adeiladu dealltwriaeth o'r byd yn seiliedig ar brofiadau chwarae. Gall arsylwadau helpu darganfod diddordebau plant. Mae hyn gallu bod yn bwysig gyda phlant ag anghenion dwys sydd ddim yn siarad. Trwy adlewyrchu, mae gweithwyr proffesiynol yn gwella ymarfer gan ei fod yn gallu adlewyrchu ar yr hyn maent yn gweld.

Mae'r cylch arsylwi'n ganolog i blant ac yn broses bwysig i helpu nhw i dyfu. I ddechrau, rydych yn arsylwi trwy wyllo. Mae'r cam yma'n bwysig i adnabod diddordebau plant, emosiynau a hefyd yn galluogi ymarferwyr i weld lefelau cyfranogiad a chymdeithaseg. Yna, bydd angen dadansoddi'r hyn rydych yn gweld a chlywed. Y cam olaf yn y cylch yw ymateb i'r hyn rydych yn dadansoddi. Yn ystod y broses yma, mae gweithwyr proffesiynol yn llywio'r gwaith o gynllunio profiadau a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Yn gryno, mae arsylwi yn helpu darganfod anghenion plant (West Sussex Council, 2015). Mae gweithwyr proffesiynol yn cynllunio yn ôl canlyniadau arsylwi.

Mae'r egwyddor Confensiwn Cenhedlaeth Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP) yn bwysig iawn i ymarferwyr proffesiynol a hefyd i blant. Mae'r ddeddfwriaeth yma'n pwysleisio hawliau plant a sut mae plant yn cael eu trin. Pwrpas y CCUHP yw hybu heddwch, hawliau a rhyddid, cyfeillgarwch a hybu cytgord. Caiff y CCUHP ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cadw plant yn ddiogel ar ôl yr ail ryfel byd. Ers hynny mae llawer o wledydd ar draws y byd wedi mabwysiadu'r un ddeddf. Mae rôl a dyletswydd gan bob gweithiwr proffesiynol i gadw plant yn ddiogel a pharchu hawliau plant.

Mae'r CCUHP yn bwysig i weithwyr proffesiynol oherwydd mae plant yn gwario rhan fwyaf o'u hamser yn y lleoliadau gwahanol. Os nad yw gweithwyr proffesiynol yn dilyn deddfwriaeth CCUHP, ni fydd anghenion plant yn cael ei chwrrd, a ni fydd plant yn byw bywyd i'w llawn botensial. Mae dyletswydd diogelu gan weithwyr proffesiynol, ac mae cadw at ddeddfwriaethau hanfodol yma'n bwysig er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel yn eu gofal.

Ymarfer proffesiynol yw'r ymddygiad o unigolyn pryd bynnag maent yn gweithio. Arfer proffesiynol yw'r pethau rydych yn gwneud wrth weithio. Mae gan weithwyr proffesiynol sawl rôl a dyletswydd er mwyn diogelu plant. Hefyd, mae gan weithwyr proffesiynol dealltwriaeth ddofn mewn sawl pwnc, sydd yn helpu cadw plant yn ddiogel. Egwyddorion yw rheolau neu gredoau sy'n rheoli ymddygiad unigolyn. Mae egwyddorion a moesau da yn bwysig iawn er mwyn fod yn weithiwr proffesiynol

llwyddiannus. Mae angen i weithwyr proffesiynol cael cyfathrebiad da er mwyn sicrhau llesiant a'r gorau i blant.

Cyfeirnod

Bell S, (dim dyddiad) 'Meeting the Standards that Matter' Professionalism. Ar gael yn: <https://mindtools.com> (Wedi cychwyn 14 o Hydref 2024).

Brock, A. (2012) Building a model of early years professionalism from practitioners' perspectives. *Journal of Early Childhood Research*.

CCUHP (1989) Comisynydd Plant Cymru. Ar gael yn: www.complantcymru.org.uk (Wedi cychwyn ar; 2il o Dachwedd 2024).

Chalke, J. (2013) 'Will the Early Years Professional Please Stand Up? Professionalism in the Early Childhood Workforce in England', *Contemporary Issues in Early Childhood*. (3)

Dunhill, A., Elliott, B., & Shaw, A. (2009). Effective communication and engagement with children and young people, their families and carers. Learning Matters. Ar gael yn: <https://searchebscohost.com> (Wedi cychwyn 2il o Dachwedd 2024).

GIS Certification Institute (2023) 'Professional Practice' Ar gael yn: <https://gisci.org> (Wedi cychwyn 2il o Dachwedd 2024).

Hayes C (2016) *The Early Years Handbook for Students and Practitioners*. Oxford: Routledge.

Murphy R (2024), 'What is relative poverty?' Relative income poverty: April 2022 to March 2023. (Cyhoeddi ar-lein 21ain o Fawrth 2024) Ar gael yn: [https://www.gov.wales/relative-income-poverty-april-2022-march-2023-html#:~:text=Between%20financial%20year%20ending%20\(FYE,Wales%20for%20over%2018%20years](https://www.gov.wales/relative-income-poverty-april-2022-march-2023-html#:~:text=Between%20financial%20year%20ending%20(FYE,Wales%20for%20over%2018%20years). (Wedi cychwyn 3ydd o Dachwedd 2024).

Orey, M. (2014) *Communication Skills Training*. Virginia: ATD Press.

Perez, R. (2019) 'What Does It Mean to Be a Professional?' *Professional Case Management*. (4) tud 212.

Powell, S. (2010) 'HIDE AND SEEK: VALUES IN EARLY CHILDHOOD EDUCATION AND CARE', *British Journal of Educational Studies*.58, (2).

Reigeluth C (1999) 'Why is understanding important?' Module 6: Understanding (Cyhoeddi ar-lein ar 10fed o Fawrth 1999) Aar gael yn: <https://idtheory.sitohost.iu.edu/methods/m6b.html#:~:text=When%20something%20is%20meaningfully%20understood,be%20used%2C%20and%20facilitates%20creativity.> (Wedi cychwyn ar 2il o Dachwedd 2024).

Training Express (2023), 'What is Multi-agency Working in Safeguarding' (Cyhoeddi ar-lein 25ain o Hydref, 2023) Ar gael yn: <https://trainingexpress.org.uk/what-is-multi-agency-working-in-safeguarding/#:~:text=Multi%2Dagency%20work%20is%20a,secure%20improvements%20in%20their%20lives.> (Wedi cychwyn 3ydd o Dachwedd 2024).

West Sussex Borough Council (2015) 'Effective Practice: Observation, Assessment and Planning' (Cyhoeddi ar-lein yn Awst 2015) Ar gael yn: https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective_poa_and_planning.pdf (Wedi cychwyn 3ydd o Dachwedd 2024)

Wilkinson T, (2012) 'Professionalism: What is it?' What is Professionalism?